GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 45 (YNYSFORGAN) I GYFFORDD 46 (LLANGYFELACH), ABERTAWE) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd hyd nes y gall rhwystr newydd ar y llain ganol gael ei osod ar draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 45 (Ynysforgan) a Chyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darn o draffordd yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 395 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 hyd at bwynt 227 o fetrau i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46, gan gynnwys y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46.

Daw'r Gorchymyn i rym am 00:01 o'r gloch ar 12 Mehefin 2022 a disgwylir y bydd y cyfyngiad dros dro yn weithredol am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 45 (YNYSFORGAN) TO JUNCTION 46 (LLANGYFELACH), SWANSEA) (TEMPORARY 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users until the central reserve barrier can be replaced on the M4 motorway between Junction 45 (Ynysforgan) and Junction 46 (Llangyfelach), Swansea.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on the length of the M4 motorway that extends from a point 395 metres east of the nosing of the westbound entry slip road at Junction 45 to a point 227 metres west of the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 46, including the lengths of the westbound entry slip road at Junction 45 and eastbound entry slip road at Junction 46.

The Order comes into force at 00:01 hours on 12 June 2022 and the temporary restriction is expected to operate for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government